Prosiect X

Llyfr Llafar
gyda
chôd QR

# Paid ag Edrych i Lawr




Tony Bradman

DRAKE

Jon Stuart

# Y stori hyd yma

Yn y llyfr *Reid Wyllt*, mae Jac, Non, Sbwt a Hops yn adeiladu meicro-rafft.






Maen nhw'n mynd ar reid wyllt drwy'r dŵr yn y parc.



Yna ... AR Y FUNUD OLAF, mae Jac, Non a Hops yn neidio o'r rafft i ddiogelwch.



Mae'r rafft yn torri ond mae Sbwt yn dal yn dynn ynddi. Mae'n gwibio dros y dŵr. Mae'n glanio ar yr ynys fechan ynghanol y llyn.



Nawr mae'n rhaid i Jac, Non a Hops ei achub ...

Edrychodd Jac, Non a Hops draw at yr ynys. Roedd Sbwt wedi bod yn chwifio ei law arnyn nhw. Ond nawr roedd wedi diflannu.

Yn sydyn, gwthiodd pysgodyn anferth ei ben allan o'r llyn. Rhythodd ei lygad treiddgar ar y plant. Agorodd ei geg fawr. Yna suddodd 'nôl i'r dŵr ac roedd wedi mynd.



"O, na!" llefodd Non. "Efallai bod yr hen bysgodyn cas yna wedi dal Sbwt."

Edrychodd ar ei watsh. Roedd dot bach gwyrdd yn symud o amgylch. Roedd hynny'n dangos bod Sbwt yn iawn ... am nawr.

"Dere 'mlaen, Jac," dywedodd Hops. "Rydyn ni angen cynllun– yn gyflym!"



Yna clywson nhw sŵn fflapian. Aeth cysgod drostyn nhw. Rhoddodd hyn syniad i Jac.

"Rwy'n gwybod," meddai Jac. "Gallwn ddefnyddio'r meicro-hofrennydd i achub Sbwt!"





“Sut medri di ei hôl?” gofynnodd Non. “Nawr mae wedi peidio glawio mae llawer o bobl o amgylch. Fedri di ddim tyfu. Fe gymerith hydoedd i ti gyrraedd y ffau.”

“Feddylia i am rywbeth,” dywedodd Jac.

Rhedodd Jac i mewn i'r borfa ar ochr y llwybr. Roedd e'n guddiedig yno ond roedd y ddaear yn wlyb. Roedd ei draed yn glynu yn y mwd. Syrthiodd diferion anferth o ddŵr arno. Tasgodd ci heibio.



“Ci...” meddyliodd Jac.

Cyn gyflymed â chwannen, neidiodd Jac allan o’r borfa wlyb. Cymerodd reid ar y ci oedd yn mynd heibio.

“Diolch!” sibrydodd Jac pan ddaethon nhw at y meicro-ffau.



"Ci..." meddyliodd Jac.

Cyn gyflymed â chwannen, neidiodd Jac allan o'r borfa wlyb. Cymerodd reid ar y ci oedd yn mynd heibio.

"Diolch!" sibrydodd Jac pan ddaethon nhw at y meicro-ffau.





Rhedodd Jac i mewn i'r ffau. Aeth i fyny i'r blwch adar lle cadwai'r meicro-hofrennydd. Yn fuan roedd wedi'i glymu ei hun i mewn ac yn barod i godi. Gwasgodd y botwm tanio a chododd i'r awyr.



Roedd y glaw wedi peidio ond roedd yn wyntog. Roedd yn galed llywio'r meicro-hofrennydd. Bu bron iddo daro i mewn i lwyn. "Wps!" dywedodd Jac. Hedfanodd gwenynen grac ato.

Gostyngodd Jac y meicro-hofrennydd a hedfanodd dros y llyn.

Chwifiodd Non a Hops arno o'r llawr.

"Bydd yn ofalus, Jac!" gwaeddodd Non.

Roedd Jac yn rhy brysur i chwifio 'nôl.

Edrychai'r llyn mor llydan â chefnfor. Edrychai'r ynys yn bell i ffwrdd.



Gostyngodd Jac y meicro-hofrennydd. Gwibiodd pryfed ar draws y dŵr. Yna gwelodd Jac gysgod anferth yn y dŵr islaw. Llowciodd. Roedd y pysgodyn mawr yno, yn gwylio ac yn aros …



"Sbwt, ble rwyt ti?" galwodd Jac pan laniodd. Doedd dim ateb. Gwelodd Jac ôl traed yn y mwd, felly dilynodd nhw. Roedd fel jyngl. Roedd adar yn canu a glaswellt yn siffrwd o'i amgylch.



Roedd Sbwt, wrth gwrs, yn iawn. A dweud y gwir, roedd yn cael amser braf iawn.

"O, helo Jac," dywedodd pan ddaeth Jac o hyd iddo. "Edrych ar y llys-brogaid. Mae'n rhyfeddol."



“Rydw i yma i dy achub di, Sbwt,” dywedodd Jac.

“Ond dydw i ddim am gael fy achub,” atebodd Sbwt. “Rydw i’n cael hwyl!”

Roedd Sbwt yn dotio at yr ynys. Roedd yno lawer o bryfetach a chreaduriaid bach. Roedd ei bocedi’n llawn o’r pethau roedd wedi eu casglu.



"Dere 'mlaen," dywedodd Jac. "Fedri di ddim aros yma. Mae'r meicro-hofrennydd 'da fi i fynd â thi 'nôl."

Doedd Sbwt ddim yn hoffi'r syniad ond cytunodd i fynd.



Clymodd Jac Sbwt a fe'i hun i'r meicro-hofrennydd. Gwthiodd y botwm tanio. RRRR...RRRR...RRRR...aeth yr hofrennydd. Ond chododd e ddim o'r ddaear.





“Dydy hyn ddim gwerth,” dywedodd Jac. “Rydyn ni’n rhy drwm. Bydd rhaid i ti dynnu popeth o’th bocedi.”

“Beth?” gwichiodd Sbwt. “Dim pethau ydyn nhw. Maen nhw’n samplau gwyddonol...”

Edrychodd Jac ar Sbwt.

“O, o’r gorau,” cwynodd Sbwt.



Gwasgodd Jac y botwm tanio. Y tro yma codon nhw i'r awyr.

Roedd wedi dechrau glawio eto. Cwympodd diferion mawr ar y meicro-hofrennydd. Roedd yn anodd i Jac lywio. Fel roedd Jac a Sbwt yn gwlychu, roedden nhw'n ennill pwysau.



Hedfanodd y meicro-hofrennydd yn is ac yn is. Gwibiodd yn isel dros y dŵr. Symudodd cysgod y pysgodyn mawr oddi tanynt.

"Paid ag edrych i lawr, Sbwt!" dywedodd Jac.

"Wna i ddim ..." dywedodd Sbwt.

Yna roedd PLOP! swnllyd. Yna un arall ... ac un arall.

"Edrych!" gwaeddodd Jac. "Mae Non a Hops wedi dod i'n hachub ni!"



Roedd Non a Hops yn taflu cerrig mân i'r llyn. Llwyddon nhw i ddychryn y pysgodyn ac i ffwrdd ag e... mewn da bryd. Ffrwtiodd a throellodd y meicro-hofrennydd a glanio. Daeth Jac a Sbwt allan. Roedden nhw'n sigledig ond yn ddiogel.

"Gwnawn rywbeth diflas fory!" dywedodd Jac.

